# TAFLEN WYBODAETH: DV1 – CYMERADWYO'R GYRRWR

Mae'r Daflen Wybodaeth hon yn darparu canllawiau ar y camau y mae'n rhaid i Golegau a Gwasanaethau eu cymryd i sicrhau cymhwysedd unigolion sy'n gyrru cerbydau sydd ar brydles / yn eiddo i'r Coleg / Gwasanaeth neu gerbydau llogi ar fusnes y Brifysgol. Mae'n ffurfio cyfres o Daflenni Gwybodaeth sy'n cefnogi'r *Polisi Diogelwch Gyrwyr a Cherbydau* sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob Coleg / Gwasanaeth gyflwyno trefniadau lleol i reoli eu gweithgareddau gyrru a cherbydau.

## CEFNDIR

Mae gan y Brifysgol ddyletswydd gofal dros bawb sy'n gyrru ar fusnes y Brifysgol. Fel y cyfryw, rhaid iddynt roi digon o wybodaeth ac arweiniad i yrwyr allu cyflawni'r dasg yn ddiogel, heb unrhyw risg ychwanegol i'r hyn a brofir bob dydd ar y ffordd.

## System Gychwynnol Awdurdodi Gyrwyr

Rhaid i Golegau/Gwasanaethau awdurdodi (gweler Ffurflen Awdurdodi Gyrwyr) unrhyw aelod o staff neu fyfyriwr cyn iddynt yrru cerbyd (cerbydau ar brydles / sy'n eiddo i'r Coleg neu'r Gwasanaeth, cerbyd hurio neu fws mini) ar fusnes y brifysgol. Bydd hyn yn golygu bod angen manylion o drwydded yrru cerdyn-llun yr unigolyn. Rhaid rhoi copi o'r Ffurflen wedi'i llofnodi, sy'n manylu ar ba gategori o gerbydau y gall yr unigolyn eu gyrru, i'r gyrrwr, a bydd y gwreiddiol yn cael ei gadw gan y Coleg / Gwasanaeth (a gedwir yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data).

Dylai'r broses awdurdodi ystyried:

1. Y mathau o gerbydau y mae Coleg / Gwasanaeth yn eu gweithredu.
2. Y mathau o weithgareddau gyrru a wneir, e.e. ar y ffordd, oddi ar y ffordd, trelars, bysiau mini.
3. Os oes angen rheolaethau penodol i yrru fel 1 neu 2, gan gynnwys cymhwysedd ychwanegol neu ofynion categori Trwydded Yrru ychwanegol.
4. Proffil y gyrrwr, e.e. oedran, profiad, gwlad y rhoddwyd Trwydded Yrru.

Os bydd mwy nag un math o gerbyd yn cael ei weithredu, rhaid i'r system Awdurdodi Gyrrwr nodi pob math o gerbyd y gall y gyrrwr ei yrru. Er enghraifft, os yw Coleg yn defnyddio ceir, faniau tramwy, bysiau mini a land rover, efallai y bydd angen pedwar categori awdurdodi. Argymhellir bod Awdurdodi Gyrrwr yn cael ei rannu i'r lefelau neu'r mathau canlynol o gerbyd:

| LEFEL | MATH O GERBYD(AU)[1] |
|---|---|
| **1** | Ceir ar Log |
| **2** | Ceir ar 'sy'n Eiddo / ar Brydles' Coleg / Gwasanaeth / Cerbydau sy'n deillio o Geir[2] |
| **3** | Cerbydau Mwy: Cludwyr Pobl (Cerbydau Amlbwrpas hyd at 9 sedd), Faniau Transit, Tryciau, Cartrefi Symudol |
| **4** | Bysiau mini (dros 8 sedd ond dim mwy nag 16 o deithwyr **a'r** gyrrwr). Yn cynnwys Cerbydau Amlbwrpas, 10 sedd ac uwch, h.y. 9 teithiwr + 1 gyrrwr |
| **5** | Cerbydau Arbenigol (e.e. Land Rovers) |
| **T** | Trelars |
| **'Oddi ar y Ffordd'** | Cerbydau sy'n cael eu gyrru oddi ar y ffordd |

**SYLWER: MAE'N HANFODOL BOD YSWIRIANT CERBYDAU ADDAS YN EI LE (gweler *Yswiriant* isod).**

[1] Yn cynnwys cerbydau trydan

[2] Mae cerbydau sy'n deillio o geir yn cynnwys faniau bach, h.y. yn gyffredinol yr un fath â cheir ystâd, ond wedi'u dylunio i gludo llwythi ysgafn

Efallai y bydd angen is-gategorïau ychwanegol ar gyfer tynnu trelars a gyrru oddi ar y ffordd. Gellir nodi'r rhain gan yr ôl-ddodiad **'T'** a **'oddi ar y ffordd'** i bob Categori Cymeradwyaeth. Mae'r canlynol yn ofynion nodweddiadol ar gyfer awdurdodi pob lefel / math o gerbyd:

| LEFEL | CAMAU RHEOLI ANGENRHEIDIOL I AWDURDODI[3] |
|---|---|
| **1** | • Rhaid i'r Gyrrwr gyflwyno eu Trwydded Yrru i'w harchwilio'n flynyddol.<br>• **Rhaid i'r gyrrwr fod yn 21 mlwydd oed o leiaf.**<br>• Rhaid i'r Drwydded Yrru fod yn Ddilys yn y Deyrnas Unedig[4], ym meddiant y gyrrwr am o leiaf 2 flynedd, yn glir o[5] Bwyntiau Cosb / Codau Ardystiad ac yn cynnwys y Categori Cerbyd angenrheidiol ar y Drwydded[6].<br>• Mae'r gyrrwr yn llofnodi i gadarnhau y bydd yn gyrru yn unol â Rheolau'r Coleg / y Gwasanaeth, yn bodloni'r lleiafswm o ofynion iechyd [7] (safon y DVLA) ac y bydd y cerbyd sydd i'w ddefnyddio wedi'i yswirio'n briodol ar gyfer defnydd busnes, yn addas i'r ffordd fawr ac yn gyfreithlon, wedi'i drethu ac wedi pasio prawf MOT. |
| **2** | **<u>Lefel 1 ac uwch Coleg / Gwasanaeth</u>**<br>• Cynnig unrhyw gyfarwyddyd penodol sydd ei angen i weithredu'r cerbyd, gan gynnwys sut i gynnal Gwiriadau Gyrrwr.<br>• Cynnig cymorth / cyfarwyddyd i'r gyrrwr allu ymgyfarwyddo â'r cerbyd(au). |
| **3** | **<u>Lefel 2 ac uwch Coleg / Gwasanaeth</u>**<br>• Awdurdodi gyrwyr ar gyfer cerbydau o'r fath yn unig os ydynt yn fodlon y gallant eu gyrru a'u gweithredu'n ddiogel. |
| **4** | • Awdurdodiad yn unol â *Safon Polisi Diogelwch Bws Mini* (**25 oed o leiaf ynghyd â Hyfforddiant Gyrrwr Bws Mini MIDAS neu gwrs arall a gymeradwyir gan y DVLA).** |
| **5** | **<u>Lefel 3 ac uwch</u>**<br>• Rhaid i'r Coleg / Gwasanaeth wirio, trwy Asesiad Gyrrwr, bod y gyrrwr yn gymwys i yrru a gweithredu'r cerbyd ac yn gallu cynnal Gwiriadau Gyrrwr. |
| **Ôl-ddodiad 'T' (trelar)** | Yn ogystal â **3** uchod, gall y gyrrwr gael ei awdurdodi i Dynnu Trelars yn unol â'r amodau canlynol:<br>• Bod ganddynt y Categori angenrheidiol ar eu Trwydded Yrru.<br>• Eu bod yn defnyddio cerbydau, trelars a llwythi penodedig yn unig wrth dynnu.<br>• Eu bod wedi cael eu hasesu er mwyn cadarnhau eu cymhwysedd i wneud y canlynol:<br>o gyrru wrth dynnu<br>o defnyddio bachyn<br>o archwilio'r trelar a'r pwyntiau critigol<br>o sicrhau llwythi<br>o nodi capasiti llwythi i fathau a chapasiti trelars a cherbydau |

[3] Yn cynnwys cerbydau trydan
[4] Gall cyfyngiadau fod yn gymwys i drwyddedau gyrru a ddyroddwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig.
[5] Rhaid rhoi gwybod i Swyddog Yswiriant y Brifysgol os oes gennych chi 7 neu fwy o Bwyntiau Cosb a Chodau Ardystiad.
Gweler Adran - Cyfarwyddyd Pellach.
[7] Gweler y Llawlyfr Diogelwch Gyrwyr a Theithwyr am gyngor.

| | |
|---|---|
| **Ôl-ddodiad 'Oddi ar' (oddi ar y ffordd)** | Yn ogystal â 3 uchod, gellir awdurdodi gyrwyr i yrru 'oddi ar y ffordd' yn unol â'r amodau canlynol:<br>• Eu bod wedi cael eu hasesu ar allu a chymhwysedd i yrru oddi ar y ffordd.<br>• Eu bod wedi cael eu hawdurdodi ar gyfer cerbydau neu fathau o gerbydau penodol.<br>• Eu bod wedi cael eu hawdurdodi ar gyfer mathau o dir (h.y. glan y môr, caeau, llethrau ac ati). |

**Gofynion Awdurdodi Penodol**

Rhaid i Golegau / Gwasanaethau gysylltu â Swyddog Yswiriant y Brifysgol cyn awdurdodi unrhyw berson i yrru ar fusnes sy'n ymwneud â'r Brifysgol os:

- Maent wedi meddu ar eu trwydded yrru ers llai na dwy flynedd.
- Maent o dan 21 oed neu o dan 25 oed os ydynt yn gyrru bws mini.
- Maent yn gyrru dramor.
- Mae pryderon am eu trwydded yrru e.e. Categorïau, Pwyntiau Cosb, Codau Ardystio, y wlad y cyhoeddir y drwydded ynddi.

**Yswiriant**

Rhaid cael yswiriant cerbyd addas ar gyfer pob cerbyd a ddefnyddir a / neu unrhyw waith gyrru a gyflawnir ar ran y Coleg / Gwasanaeth ac sy'n ystyried y math o gerbyd sy'n cael ei yrru, y math o yrru y bydd yn cael ei wneud ar ei gyfer, e.e. oddi ar y ffordd, a chymhwysedd y gyrwyr dan sylw.

Fel rhan o'r broses hon, mae Yswiriwr y Brifysgol yn gofyn am y canlynol:

- Cwblhau Ffurflen Llogi Cerbyd / Yswiriant ar-lein y Swyddfa Gyllid ar gyfer pob cerbyd sy'n cael ei logi'n gyffredinol, e.e. ceir, bysiau mini.
- Trefnu yswiriant cerbyd addas ar gyfer cerbydau Coleg / Gwasanaeth sy'n eiddo / 'ar brydles' trwy'r Swyddog Yswiriant Cyllid.
- Rhaid i unrhyw berson sy'n defnyddio eu cerbyd eu hunain ar gyfer gwaith sy'n ymwneud â'r brifysgol fod â 'defnydd busnes' ar eu hyswiriant cerbyd personol.

**Asesiadau Iechyd**

Efallai y bydd angen Asesiadau Iechyd cyfnodol ar yrwyr y mae gofyn cytundebol iddynt yrru. Trefnir hyn drwy'r Swyddfa Iechyd a Diogelwch a gall gynnwys Gwiriad Iechyd a/neu Holiadur Iechyd i'w gwblhau.

**Gwiriadau / Cofnodion Blynyddol Trwyddedau Gyrru**

Yn dilyn yr Awdurdodiad Gyrrwr cychwynnol, rhaid i Golegau / Gwasanaethau **gwirio'n flwyddyn trwyddedau gyrru staff a myfyrwyr:**

- sydd wedi eu contractio i yrru fel rhan o delerau ac amodau eu cyflogaeth gyda'r brifysgol.
- sy'n gyrru cerbydau llog ar fusnes yn ymwneud â'r brifysgol.
- Cerbydau sy'n eiddo / ar brydles i Goleg / Gwasanaeth:

Gan nid yw fersiwn bapur y drwydded yrru'n ddilys mwyach ac nid yw Pwyntiau Cosb/Codau Ardystio bellach yn cael eu hychwanegu at y cerdyn-llun, rhaid i yrwyr gael crynodeb ar-lein o'u trwydded yrru gyfredol: <https://www.gov.uk/view-driving-licence> .

Fel rhan o'r Gwiriad Blynyddol, mae cofnodi cadarnhad ar daenlen bod y Gwiriad Trwydded Yrru Blynyddol wedi cael ei gynnal, a bod unrhyw ardystiadau neu bwyntiau cosb wedi cael eu gwirio gan Swyddog Yswiriant y Brifysgol, yn ddigonol. Rhaid cadw pob cofnod yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Mae'n hanfodol i yrwyr ddeall bod rhaid iddynt roi gwybod yn syth am newidiadau i'w trwydded yrru a allai effeithio ar eu gallu i yrru, e.e. pwyntiau cosb.

Mae rhagor o fanylion am sut i wneud hyn ar gael ar Wefan y Swyddfa Gyllid: https://my.bangor.ac.uk/finance/is/is010.php.cy

Enghraifft o Awdurdodiad Gyrrwr gyda cholofnau ychwanegol yn cael eu hychwanegu bob blwyddyn i gadarnhau bod y Gwiriad Blynyddol wedi'i gynnal heb unrhyw faterion wedi'u codi (*rhaid cadw data yn unol â gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data*):

| Dyddiad y Gwiriad: | Enw: | Rhif Adnabod Staff / Myfyriwr | Rhif trwydded yrru: | Categorïau'r drwydded yrru: | Pwyntiau Cosb: | Codau Ardystio | Awdurdodwyd i Yrru: |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 Ionawr 2019 | Henry W. Jones | 000011 | 0202000 | B, D1, C1 + E | 0 | | Lefel 1, 2 |

**Canllawiau Pellach**

Dylai Colegau / Gwasanaethau hefyd sefydlu systemau i sicrhau:

- **Ffitrwydd Meddygol:** Mae pobl sy'n gyrru ar fusnes y Brifysgol yn deall bod yn rhaid iddynt fonitro eu hiechyd eu hunain ac adrodd ar unwaith am gyflyrau meddygol:
  - A all achosi salwch sydyn ac / neu effeithio ar olwg, arwain at golli ymwybyddiaeth neu'r gallu i ganolbwyntio a allai eu rhoi hwy ac eraill mewn perygl pan fyddant yn gyrru.
  - Cyflyrau meddygol y mae'n rhaid hysbysu'r DVLA amdanynt, e.e. diabetes, anhwylderau'r galon ac anhwylderau niwrolegol, trafferthion cysgu, problemau gweld, alcohol a chyffuriau, materion iechyd meddwl.

  Mae staff sydd ar gontract i yrru yn feddygol ffit i wneud hynny. Bydd gwiriadau'n sicrhau iechyd a diogelwch y gyrrwr a'r rhai a allai gael eu heffeithio pe bai'r gyrrwr yn mynd yn sâl wrth yrru.

- **Trwyddedau Gyrru (gweler y Siart Llif am drwyddedau a gyhoeddir y tu allan i Brydain Fawr):** Rhaid i Golegau / Gwasanaethau wirio bod gan yrwyr y 'categori' angenrheidiol[8] ar eu trwyddedau i yrru cerbydau'r Brifysgol (gellir ceisio cyngor ar wefan yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA) (https://www.gov.uk/government/organisations/driver-and-vehicle-licensing-agency).

  Rhaid rhoi sylw arbennig hefyd i 'gategorïau' trwydded wrth awdurdodi gyrru cerbydau nad ydynt yn geir, megis faniau, cerbydau 4 x 4 a cherbydau codi, ac i yrwyr a lwyddodd i basio eu prawf gyrru ar ôl 1997. Mae gofynion penodol yn berthnasol i fysiau mini a thrwyddedau gyrru a gyhoeddir y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

- **Cadw Cofnodion – Gyrwyr:** Mae'n bosibl y gofynnir i Golegau/Gwasanaethau nodi gyrrwr pan fo amheuaeth o droseddau goryrru neu droseddau Traffig Ffyrdd eraill. Gall methu â gwneud hynny arwain at ymchwiliad troseddol neu ymddangosiad yn y llys i egluro pam nad yw cofnodion ar gael. Argymhellir felly bod Colegau / Gwasanaethau'n cadw cofnod o deithiau a

[8] Gall Grwpiau a Chategorïau Trwydded Yrru fod wedi newid os rhoddwyd trwydded yrru cyn 2013. Yn ogystal, cofiwch nad yw fersiwn bapur trwydded yrru bellach yn ddilys ac ni fydd 'Codau Pwyntiau/Codau Ardystio' yn cael eu cofnodi ar y drwydded cerdyn-llun.

wneir mewn cerbydau Coleg / Gwasanaeth sy'n eiddo / ar brydles, yn enwedig os yw nifer o yrwyr yn defnyddio'r cerbyd.

- **Adroddiadau Gyrru Gwael:** Os bydd y Brifysgol a/neu Golegau a Gwasanaethau'n derbyn adroddiadau am yrru gwael rhaid ymchwilio i'r achos. Os bydd angen, gellir atal y gyrrwr rhag gyrru ar fusnes y Brifysgol wrth aros i'r ymchwiliad ddod i ben.

  Gall Adnoddau Dynol roi cyngor ar sut i ymchwilio i adroddiadau o yrru gwael.

## GYRRU YN Y DEYRNAS UNEDIG AR GYFER DEILIAID TRWYDDED YRRU A GYFLWYNWYD Y TU ALLAN I BRYDAIN FAWR (CYMRU, LLOEGR A'R ALBAN)

**DECHRAU YMA**

A ydych yn meddu ar drwydded yrru ddilys a chyfredol?

- **YDW** → A yw'r drwydded wedi'i chyflwyno yn Ardal Economaidd Ewrop? **GWELER BLWCH 1**
  - **YDI** → A gyflwynwyd y drwydded yng Ngogledd Iwerddon?
    - **DO** → Gweler: NI Direct
    - **NADDO** → Os ydych yn meddu ar drwydded lawn a roddwyd mewn gwlad o fewn yr Undeb Ewropeaidd/Ardal Economaidd Ewrop, gallwch yrru ym Mhrydain Fawr gan ddefnyddio eich trwydded wreiddiol nes iddi ddod i ben. Ewch i www.direct.gov.uk os daw i ben yn ystod eich cyfnod yma

      Bydd eich trwydded yn dod i ben pan fyddwch yn troi'n 70 oed, ond os ydych yn 67 neu'n hŷn pan fyddwch yn dod yn breswylydd yn y Deyrnas Unedig, gallwch yrru am 3 blynedd. Ar ôl yr amser hwn, rhaid i chi gyfnewid eich trwydded
  - **NAC YDI** → A roddwyd y drwydded mewn gwlad 'ddynodedig' ym Mhrydain Fawr os oedd yn gyrru ym Mhrydain Fawr? **GWELER BLWCH 2**
    - **DO** → Gallwch yrru yn y Deyrnas Unedig am hyd at 12 mis ar drwydded a roddwyd mewn 'gwlad ddynodedig'

      Ar ôl yr amser hwn, rhaid i chi gyfnewid eich trwydded er mwyn parhau i yrru. Gallwch gyfnewid eich trwydded 5 mlynedd ar ôl dod yn breswylydd yn y Deyrnas Unedig, os nad yw wedi dod i ben, heb orfod ailsefyll y prawf
    - **NADDO** → Gallwch yrru ar eich trwydded yrru ryngwladol am hyd at 12 mis (**Mae'r 12 mis yn dechrau o'r dyddiad yr ydych yn cyrraedd y Deyrnas Unedig**) cyhyd â bod y drwydded yn parhau'n llawn ac yn ddilys.

      Ar ôl 6 mis yn y Deyrnas Unedig, gallwch sefyll prawf a chael trwydded Brydeinig. **Mae'n rhaid i chi wneud hyn o fewn 12 mis** i sicrhau y gallwch barhau i yrru'n gyfreithlon.

      **BYDDWCH YN GYRRU'N ANGHYFREITHLON AR ÔL Y 12 MIS OS NAD YDYCH WEDI CYMRYD PRAWF GYRRU YM MHRYDAIN FAWR**
- **NAC YDW** →

  **NI ALLWCH YRRU'N GYFREITHIOL yn y DEYRNAS UNEDIG.**

  **Os nad oes gennych drwydded ddilys rhaid i chi wneud cais am Drwydded Dros Dro a sefyll Prawf Gyrru i gael trwydded lawn. Rhoddir trwyddedau gan y DVLA - Awdurdod Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau.**

  **Mae'r Drwydded Dros Dro yn ei gwneud yn ofynnol i chi arddangos Platiau L, neu Blatiau D yng Nghymru, lliw coch a gwyn, ar flaen a chefn y cerbyd, a bod yng nghwmni person arall yn sedd y teithiwr sydd a) yn 21 oed, a b) wedi pasio ei brawf yrru ac yn meddu ar drwydded yrru lawn ddilys am o leiaf 3 blynedd.**

**BLWCH 1 – GWLEDYDD Ardal Economaidd Ewrop:**

Awstria, Gwlad Belg, Bwlgaria, Croatia, Cyprus, Y Weriniaeth Tsiec, Denmarc, Estonia, Y Ffindir, Ffrainc, yr Almaen, Gwlad Groeg, Hwngari, Gwlad yr Ia, Iwerddon, Yr Eidal, Latfia, Liechtenstein, Lithwania, Lwcsembwrg, Malta, Yr Iseldiroedd, Norwy, Gwlad Pwyl, Portiwgal, Rwmania, Slofacia, Slofenia, Sbaen, Sweden

**BLWCH 2 – GWLEDYDD DYNODEDIG (Prydain Fawr):**

Andorra, Awstralia, Barbados, Ynysoedd y Wyryf Prydain, Canada, Ynysoedd y Caiman, Ynysoedd Falkland, Ynysoedd Ffaro, Hong Kong, Japan, Monoco, Seland Newydd, Gweriniaeth Corea, Gweriniaeth Gogledd Macedonia, Singapôr, De Affrica, Y Swistir, Taiwan, Wcráin, Yr Emiradau Arabaidd Unedig a Zimbabwe

**Mae'r un rheolau'n berthnasol** i drwyddedau gyrru a gyflwynwyd yn Jersey, Guernsey, Gibraltar, ac Ynys Manaw

**!**

**Rhaid i gerbydau a yrrir ym Mhrydain Fawr gael Treth Ffordd, Yswiriant Cerbydau a Thystysgrif MOT**